Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mr Paul Roberts
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
1 Talbot Gateway
Port Talbot
SA12 7BR

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

26 Hydref 2011

Annwyl Mr Roberts,

Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr Adolygiad ar ben

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag Argymhelliad 4 (gwybodaeth bersonol cleifion) o'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'.

Mae fy nhîm a mi wedi asesu'r trydydd ymateb, sef yr un olaf, yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan.

Mae'r ymateb yn dweud bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi ymrwymo i arddel ymagwedd gyson at sicrhau y bydd trafod gwybodaeth bersonol cleifion yng nghlyw pobl eraill 'yn dod i ben'. Hoffwn egluro union eiriad Argymhelliad 4 sef y dylai hyn ddod i ben 'lle bynnag y bo'n bosibl'. Rwy'n cydnabod y bydd ambell amgylchiad prin lle bydd yn amhosibl cadw gwybodaeth yn gyfan gwbl gyfrinachol. Yr hyn y mae fy argymhelliad yn chwilio amdano yw sicrwydd mai hawl y

person hŷn i gael preifatrwydd fydd yn ganolog ym meddyliau'r staff sy'n gweld neu sy'n trafod gwybodaeth bersonol - naill ai gyda'i gilydd neu gyda'r person hŷn.

Mae'r ymateb yn dweud hefyd y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ceisio "cydweithio ymhellach â'r Comisiynydd a Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru a dysgu o'r arferion gorau yn rhyngwladol er mwyn datblygu atebion 'creadigol' ychwanegol i sicrhau preifatrwydd gwybodaeth i gleifion mewn wardiau cymunedol nad oes modd eu symud o'u gwelyau i ystafelloedd i gael sgwrs breifat". Rwy'n croesawu'r ymrwymiad hwn a hoffwn annog Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i edrych ar ymatebion y Byrddau Iechyd eraill, sydd ar ein gwefan.

Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar drydydd ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n ymdrin yn fanylach â'r materion y gofynnais am ragor o wybodaeth amdanyn nhw.

Gan fod eich trydydd ymateb wedi bodloni fy nghais am wybodaeth a fydd yn fy narbwyllo y cydymffurfir â phob un o'm hargymhellion, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn yr hoffech eu trafod, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 08442 640670 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru